# Cynllun Blynyddol 2026/27 – Fersiwn Bob Dydd

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

### Blwyddyn 3 o'n Cynllun Integredig pum mlynedd 2024 - 2029



GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Powys Teaching Health Board

# 1. Cyflwyniad

Croeso i fersiwn "bob dydd" Cynllun Blynyddol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys 2026/27. Crynodeb o'n Cynllun Blynyddol llawn yw'r ddogfen hon, sydd ar gael o'n gwefan yn **biap.gig.cymru/cynllun2627**

Yn y ddogfen hon gallwch ddod o hyd i: trosolwg o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys a phoblogaeth y sir; crynodeb o'n cyfleoedd a'n heriau; crynodeb o'n strategaeth hirdymor ar gyfer iechyd a gofal yn y sir a'n cynllun ar gyfer 2026/27; a'r camau gweithredu manwl yr ydym yn eu cynllunio yn ystod 2026/27.

Mae ein Cynllun Blynyddol yn nodi ein huchelgeisiau ar gyfer cleifion a chymunedau ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan dynnu ar adborth a glywsom gan gydweithwyr BIAP, cleifion a chymunedau, Llais a rhanddeiliaid allweddol eraill ynghylch “beth sy’n bwysig”. Mae'n ymwneud â gwella gofal a chanlyniadau i bobl Powys, gan fyw o fewn ein modd ariannol. Mae'n uchelgeisiol i ddod â mwy o ofal yn agosach at adref, lleihau defnydd diangen o ysbytai, ac adeiladu system iechyd a gofal gryfach a mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Ond ochr yn ochr â hyn mae'n gwneud arbedion, yn gwella cynhyrchiant, yn lleihau gwastraff a chostau y gellir eu hosgoi, ac yn nodi'r angen i wneud dewisiadau anodd.
Mae ansawdd yn parhau i fod yn edau aur drwy gydol y Cynllun, gan adlewyrchu ein Dyletswydd Ansawdd statudol (yn y llun ar y dde) fel ein bod ni’n mabwysiadu dull cytbwys sy'n ystyried ein dyletswyddau ansawdd, perfformiad ac ariannol.  Mae hyn yn cynnwys ein gwaith parhaus i gyflawni'r weledigaeth a nodir yn y Strategaeth Iechyd a Gofal ar y cyd, ein hymateb i ganllawiau Llywodraeth Cymru gan gynnwys Fframweithiau Cynllunio a Pherfformiad a Llythyr Dyrannu GIG Cymru, ein taith wella i fynd i'r afael â'n statws Uwchgyfeirio presennol, a'n blaenoriaethau adferiad.




Mae'r cynllun hwn yn strategol ac yn dactegol ei natur, gan ei fod yn cynnwys camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd yn y tymor byr, canolig a hir.
Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â Risg, cefnogi Adferiad a sicrhau Cynaliadwyedd. Blaenoriaeth allweddol yn y Cynllun hwn yw ein rhaglen Gwella Gyda’n Gilydd lle rydym yn gweithio gyda staff, cleifion, cymunedau a sefydliadau partner i gytuno ar siâp gwasanaethau iechyd diogel, cynaliadwy o ansawdd uchel yn y dyfodol (ein “cynllun gwasanaethau clinigol”).

Ochr yn ochr â hyn, mae yna bwyslais newydd ar fynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol sy'n achosi angen a galw drwy ein Fframwaith Strategol Iechyd y Boblogaeth a'n Fframwaith Comisiynu Strategol.
Fel rhan o fframwaith uwchgyfeirio a goruchwylio Llywodraeth Cymru rydym ar hyn o bryd yn “trefniadau arferol” (Lefel 1) ar gyfer ansawdd, perfformiad a llywodraethu sy’n adlewyrchu cyflawniad cadarnhaol yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, rydym ni yn “ymyrraeth wedi’i thargedu” (Lefel 4) ar gyfer strategaeth, cynllunio a chyllid – ac mae hyn yn ymwneud â heriau cyfredol gan gynnwys ein sefyllfa ariannol. Drwy’r cynllun hwn ein nod yw aros mewn “trefniadau arferol” ar gyfer ansawdd, perfformiad a llywodraethu wrth barhau â’n taith gwella ar gyfer strategaeth, cynllunio a chyllid sy’n cynnwys y camau gweithredu y cytunwyd arnynt mewn ymateb i’n hadolygiad annibynnol diweddar gan Grant Thornton.

Diolch am eich diddordeb yn ein Cynllun Blynyddol.

# 2. Am Fwrdd Iechyd Addysgu Powys

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn un o saith bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae'r bwrdd iechyd yn gwasanaethu sir Powys, sef y sir fwyaf a'r mwyaf prin ei phoblogaeth yng Nghymru, gan wasanaethu poblogaeth o 133,000 o bobl ar draws ardal o 2000 milltir sgwâr sy'n ymestyn o Eryri yn y gogledd i Fannau Brycheiniog yn y de, o Fynyddoedd Cambria yn y gorllewin i Glawdd Offa a'r ffin hir â Lloegr i'r dwyrain.

Mae'r sefydliad yn cyflogi tua 2,500 o staff parhaol (ochr yn ochr â thua 500 o weithwyr banc). Mae natur denau poblogaeth Powys yn golygu nad oes unrhyw opsiynau diogel na hyfyw ar gyfer darparu gwasanaethau ysbyty cyffredinol dosbarth yn y sir. Felly mae Powys yn unigryw o blith holl fyrddau iechyd Cymru gan fod ein trigolion yn cael mynediad at y gwasanaethau hyn o rwydwaith o sefydliadau partner o amgylch ein ffiniau yng Nghymru a Lloegr.

Fel darparwr, mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn canolbwyntio ar fodel sylfaenol a chymunedol cryf i gefnogi cleifion yn eu cartrefi a'u cymunedau. Mae hyn yn cynnwys rhwydwaith o safleoedd gwasanaeth iechyd ledled y sir, gan gynnwys naw ysbyty cymunedol. Y tu hwnt i'r lleoliadau ysbytai hyn, darperir gofal trwy glinigau a chanolfannau cymunedol fel meddygfeydd teulu, fferyllfeydd, meddygfeydd deintyddol a gwasanaethau optometreg mewn trefi ledled Powys.

Mae tua thraean o'n cyllideb yn cael ei gwario ar wasanaethau a ddarparwn yn uniongyrchol (e.e. ysbytai cymunedol a gwasanaethau cymunedol ym Mhowys) a phumed ran ar ofal sylfaenol, sy'n golygu bod dros hanner ein cyllideb flynyddol yn cael ei
wario ar brynu gwasanaethau iechyd gan ddarparwyr eraill gan gynnwys ysbyty cyfagos yng Nghymru a Lloegr, gwasanaethau ambiwlans, gwasanaethau arbenigol, Gofal Iechyd Parhaus, Gofal Nyrsio a Ariennir, y trydydd sector a gwasanaethau eraill.




Mae ein daearyddiaeth a'n demograffeg unigryw hefyd yn golygu ein bod yn wynebu nifer o heriau yn y gweithlu - proffil hŷn poblogaeth, allfudo pobl iau, lleihau cyfran y bobl o oedran gweithio,
pellteroedd hir i ganolfannau poblogaeth mawr, heriau o ran cael mynediad at addysg uwch.

Powys sydd â'r ystâd GIG hynaf o unrhyw fwrdd iechyd yng Nghymru, gyda'r rhan fwyaf o'r adeiladau'n dyddio o cyn 1948. Amcangyfrifir bod cost dod â'r ystâd i gyflwr boddhaol tua £70 miliwn. Mae buddsoddiad wedi gwella amgylcheddau cleifion a staff ac wedi lleihau ôl-groniad cynnal a chadw mewn rhai safleoedd, ond mae angen penderfyniadau ar y cynllun gwasanaeth clinigol drwy Gwella gyda'n Gilydd er mwyn targedu buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol lle bydd ganddo'r budd hirdymor mwyaf. Mae cysylltedd digidol gwell bellach yn cefnogi apwyntiadau rhithwir, rhannu gwybodaeth rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd, a mynediad at gyngor hunanofal dibynadwy – er bod heriau'n

# 3. Defnyddio'r adnoddau a dderbyniwn

Yn ystod 2025/26 gwariwyd £517 miliwn ar ddarparu a chomisiynu gwasanaethau iechyd i drigolion Powys. Fodd bynnag, roedd ein gwariant yn fwy na'n dyraniad cyllideb, a daethom i ben yn 2025/26 gyda gorwariant o £33 miliwn.

Ein cynllun ar gyfer 2026/27 yw diffyg o £45m ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn tybio y bydd arbedion o £23 miliwn yn cael eu cyflawni. Nid yw ein cynllun wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru eto.

Mae'r diagram hwn yn dangos sut y dyrannwyd yr arian a wariwyd gennym yn 2025/26 ar draws yr ystod o wasanaethau a ddarparwn ac a gomisiynwn ar gyfer pobl Powys.



# 4. Ynglŷn â phobl Powys

Mae ein cynllun yn adlewyrchu daearyddiaeth a demograffeg unigryw Powys, er enghraifft:

- **Mae disgwyliad oes i ddynion a menywod yn uwch ym Mhowys** nag yng Nghymru.
- **Mae pobl yn byw'n hirach mewn iechyd da** na gweddill Cymru a'r DU.
- Mae **ymdeimlad cryf o gymuned** gyda'r sector gwirfoddol yn darparu rhwydweithiau cymorth
- Mae **diwylliant Cymreig sy'n ffynnu fwyfwy gyda 19% yn gallu siarad Cymraeg** ym Mhowys.

Fodd bynnag, mae anghydraddoldebau mewn grwpiau a daearyddiaethau:

- **Mae 28% o'r boblogaeth dros 65 oed** sy'n cynyddu anghenion iechyd a gofal.
- **Mae 12% o'r boblogaeth yn ofalwyr di-dâl** a bydd hyn hefyd yn cynyddu dros amser.
- Mae cyfran uchel o drigolion Powys yn byw ar eu pennau eu hunain.
- **Mae gan Bowys 9 ardal yn y 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru**.
- **Mae incwm cyfartalog aelwydydd yn is ym Mhowys** o'i gymharu â gweddill Cymru.
- **Mae 4,088 o deuluoedd yn byw mewn tlodi llwyr.**
- Mae traean o aelwydydd yn bobl sengl**; rhagwelir y bydd hyn yn codi 4.2% dros**

Mae tua 20% o'n statws iechyd yn cael ei ddylanwadu gan wasanaethau iechyd.

Y ffactor cyfrannol mwyaf yw ffactorau economaidd-gymdeithasol gan gynnwys addysg a statws swydd.

Gyda 30% pellach o ymddygiadau iechyd, a 20% o'n corff y GIG.




O ran gofal iechyd:

- **Mae pobl yn aros am driniaeth** ac yn aros yn yr ysbyty yn hirach nag y dylent.
- **Mae cymhlethdod yr angen yn dwysáu,** ar draws iechyd corfforol a meddyliol.
- **Rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau iechyd meddwl yn cynyddu hyd at 33%** dros y 10 mlynedd nesaf.
- Bu cynnydd o **49% ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc** dros 4 blynedd.
- Bu cynnydd o **39% mewn apwyntiadau cleifion allanol** rhwng 2014 a 2024.
- Mae natur wledig iawn y sir yn creu **rhwydwaith cymhleth o wasanaethau a llwybrau gofal.**

# 5. Ein Strategaeth

Yn genedlaethol, cyfrifoldeb dros wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn nwylo'r Senedd (Senedd Cymru) a Llywodraeth Cymru.
Maent yn datblygu ac yn gweithredu deddfwriaeth a pholisi, gan gynnwys y prif flaenoriaethau a mesurau perfformiad ar gyfer y GIG sy'n llunio'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu:




Yn lleol, mae BIAP yn gweithio gyda phobl Powys a sefydliadau partneriaid lleol i drosi polisi cenedlaethol yn gamau gweithredu lleol.
Er enghraifft:

- **Mae** Strategaeth Iechyd a Gofal Powys yn strategaeth 12 mlynedd (2017 -2029) wedi'i gytuno ar y cyd rhwng BIAP a Chyngor Sir Powys, ac wedi'i ddatblygu gyda phobl Powys, y trydydd sector a phartneriaid eraill.
  Mae'n nodi gweledigaeth ar gyfer system iechyd a gofal sy'n cefnogi pobl i Ddechrau'n Dda, Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda. Mae'n cefnogi ac yn annog gweithredu sy'n Canolbwyntio ar Les, yn Sicrhau Helo a Chefnogaeth Cynnar, Mynd i'r Afael â'r Pedwar Cyflwr Mawr sy'n cyfyngu ar fywyd ym Mhowys (Canser, Clefyd Coronaidd y Galon, Cyflyrau Anadlol, Anhwylderau Meddwl) Iechyd) ac yn datblygu Gofal Cydgysylltiedig.
  Mae'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol o ddarparu gwasanaethau iechyd ym Mhowys drwy dair Canolfan Ranbarthol Wledig a rhwydwaith o Hybiau Llesiant Cymunedol.

- Mae'r egwyddorion yr ydym wedi cytuno arnynt wrth wraidd y Strategaeth Iechyd a Gofal –
- Gwneud yr Hyn Sy'n Bwysig, Gwneud yr Hyn Sy'n Gweithio, Cynnig Mynediad Teg, Canolbwyntio ar yr Angen Mwyaf, Bod yn Ddarbodus, Gweithio gyda Chryfderau Pobl a Chymunedau – yn sylfeini hanfodol ar gyfer y gwaith hwn.

- Fel Bwrdd Iechyd sy'n darparu ac yn comisiynu gwasanaethau, rydym yn dibynnu ar bartneriaethau cryf â sefydliadau GIG eraill, awdurdodau lleol, y trydydd sector, grwpiau cymunedol a phoblogaeth Powys.

  Mae ein **Fframwaith Comisiynu Strategol** yn helpu sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac ansawdd yn y perthnasoedd hyn.
- Mae dull ataliol yn parhau i fod yn hanfodol i iechyd y genedl yn y dyfodol, ac mae ein **Fframwaith Strategol Iechyd y Boblogaeth** yn nodi camau gweithredu blaenoriaeth i gyflawni hyn.
- Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i ymgysylltu'n eang â thrigolion, cleifion a rhanddeiliaid, yn enwedig drwy'r rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd a datblygiadau gwasanaeth eraill.  Mae'r sgyrsiau hyn yn hanfodol wrth lunio dyfodol gwasanaethau a sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau ein cymunedau.

# 6. Ein Cynllun Ar Dudalen

Mae ein Strategaeth Iechyd a Gofal yn darparu fframwaith defnyddiol i grynhoi ein Cynllun Blynyddol mewn "Cynllun ar Dudalen":

- Mae ein **Hamcanion Lles** yn parhau i arwain a fframio ein gweithredoedd
- O fewn pob un o'r pedwar amcan lles hyn rydym wedi nodi **Blaenoriaethau Strategol** sy'n adlewyrchu'r meysydd cyflawni a datblygu pwysicaf.
- Ein **Galluogwyr** – Dyfodol y Gweithlu, Digidol yn Gyntaf, Amgylcheddau Arloesol, Trawsnewid mewn Partneriaethau – yw'r camau gweithredu sylfaeno sy'n ein cefnogi i wella diogelwch, ansawdd a chanlyniadau gofal.
- Mae'r camau allweddol rydym yn eu cymryd ym mhob un o'r meysydd hyn wedi'u crynhoi ar y tudalennau canlynol.



# 7. Gwella gyda'n Gilydd

Elfen allweddol o'n Cynllun yn 2026/27 yw'r cynnydd parhaus ar ein rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd.

Mae'r rhaglen 'Gwella Gyda'n Gilydd' yn gweithio ledled y sir i ddod o hyd i ffyrdd o barhau i ddarparu gwasanaethau o safon sy'n diwallu anghenion pobl Powys orau.

Ein huchelgais yw bod trigolion Powys yn derbyn gwasanaethau gofal iechyd diogel, o ansawdd a dibynadwy.  Rydym am wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym wrth sicrhau yn anad dim bod gofal a diogelwch cleifion ar flaen y gad ym mhopeth a wnawn.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r sir a'i phoblogaeth wedi profi llawer o newidiadau. Mae cymunedau'n mynd yn hŷn, ac wrth iddyn nhw heneiddio, mae mwy o bobl yn byw gyda chyflyrau iechyd lluosog. Mae effaith pandemig COVID-19 dal i'w gweld ar wasanaethau, gyda galw cynyddol am driniaethau a rhestrau aros sy'n tyfu. Mae cynnydd mawr yng nghost tanwydd, bwyd a biliau eraill wedi cael effaith hefyd.

Mae Gwella Gyda'n Gilydd yn addo gweithio gyda phobl leol, ein staff a sefydliadau rhanddeiliaid, i ddatblygu cynllun sy'n diwallu anghenion cymunedau Powys dros y 10 i 25 mlynedd nesaf.

Bydd y cynllun hwn yn helpu BIAP i ymateb i newidiadau mewn afiechydon a thriniaeth a buddsoddi mwy mewn atal afiechyd. Bydd hefyd yn chwilio am ffyrdd o adeiladu gweithlu cynaliadwy, ac i wella adeiladau a chyfleusterau fel y gallant ddiwallu ein hanghenion yn y dyfodol.

Ein ffocws cychwynnol yw ar Gam 1 – gwasanaethau cymunedol iechyd corfforol a meddyliol i oedolion – ac fel rhan o'n cynllun ar gyfer 2026/27 rydym yn rhagweld cyfnod o ymgynghori cyhoeddus ffurfiol ar opsiynau ar gyfer y dyfodol o fis Medi 2026 ymlaen.

Ochr yn ochr â hyn, mae gwaith cychwynnol wedi digwydd ar Gam 2 (Gofal wedi'i Gynllunio) a bydd hyn yn datblygu ymhellach yn y flwyddyn nesaf. Yna bydd Cam 3 yn edrych ar wasanaethau i fenywod a phlant.

Mae rhagor o wybodaeth ar Gwella Gyda'n Gilydd ar gael yn **biap.gig.cymru/gwellagydangilydd**



# Canolbwyntio ar Les



**Dull Atal System Gyfan**

- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i atal iechyd gwael yn hytrach na thrin y canlyniadau a gweithredu ein Fframwaith Strategol Iechyd y Boblogaeth 'Atal yr Ataliadwy'
- Byddwn yn arwain y gwaith o wella iechyd ar lefel y boblogaeth gan sicrhau ffocws teg - Cynllun Pwysau Iach a Gordewdra, rhoi'r gorau i ysmygu a rheoli fepio
- Bydd y gwaith yn parhau i ddatblygu Hyb Integredig Rhaglen Lles Gogledd Powys yn y Drenewydd

**Parodrwydd ar gyfer Argyfwng a Diogelu Iechyd**

- Byddwn yn sicrhau parodrwydd ar gyfer argyfyngau a gwydnwch sefydliadol a chydymffurfiaeth yn erbyn Deddf Argyfyngau Sifil
- Byddwn yn darparu ymateb diogelu iechyd i bob perygl yn unol â’r Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru

**Brechu, Imiwneiddio a Sgrinio**

- Byddwn yn gweithredu rhaglen brechu anadlol yn unol â chyfarwyddebau Llywodraeth Cymru, gan leihau anghydraddoldebau a chynyddu nifer y bobl sy'n cael brechiadau ym mhob grŵp
- Bydd yr amserlen imiwneiddio yn cael ei gweithredu yn unol â'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol a Chylchlythyrau Iechyd Cymru, gan leihau anghydraddoldebau a chynyddu'r nifer sy'n cael ei frechu ym mhob grŵp.
- Bydd nifer y bobl sy'n manteisio ar raglenni sgrinio cenedlaethol yn cael ei hyrwyddo mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Iechyd Menywod, Teulu a Phlant



**Gwella Gyda'n Gilydd a Blaenoriaethau Partneriaeth**

- Byddwn yn datblygu model y dyfodol ar gyfer Llif Gwaith Menywod, Plant a Theuluoedd Gwella Gyda'n Gilydd - yn gyd-ddibynnol â Rhaglen Lles Gogledd Powys
- Bydd blaenoriaethau partneriaeth allweddol (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) ar gyfer menywod, plant a theuluoedd yn parhau i gael eu datblygu

**Iechyd Menywod**

- Bydd camau gweithredu Blwyddyn 2 yn erbyn y Strategaeth Iechyd Menywod genedlaethol yn cael eu rhoi ar waith

**Iechyd Teuluoedd a Phlant**

- Bydd y sefydliad yn cynnyddu i Gam 2 Unicef Cyfeillgar i Fabanod ac yn ymgorffori cyngor Pwysau Iach a llwybr atgyfeirio ar gyfer menywod, plant a theuluoedd.
- Bydd y cynllun gwella ar gyfer gwasanaethau Niwroddatblygiad i blant a phobl ifanc yn cael ei gyflawni
- Bydd Blwyddyn 2 o'r Achos Busnes ar gyfer Gofal Iechyd Cymhleth a Pharhaus i blant a phobl ifanc (yn cyd-fynd ag argymhellion adolygiad Grant Thornton) yn cael ei weithredu.
- Ansawdd a Diogelwch Mamolaeth: bydd systemau a phrosesau y gwyddys eu bod yn gwella ansawdd a chyfraddau marwolaethau amenedigol yn cael eu gweithredu

# Help a Chefnogaeth Gynnar





**Gofal Sylfaenol a Chymunedol Gwell**

- Bydd Gwella Gyda'n Gilydd yn datblygu'r Model Goruchwylio Clinigol gan gynnwys gweithredu'r Model Cymunedol Integredig, atal rhagweithiol a gofal canolradd gan gynnwys ymateb cymunedol brys, ail-alluogi, gofal cleifion mewnol, iechyd corfforol a meddyliol integredig, gwasanaeth cyswllt toriadau a blwyddyn olaf bywyd.
- Byddwn yn gwerthuso newidiadau dros dro i wasanaethau i lywio camau nesaf Gwella Gyda'n Gilydd a dechrau'r daith i ymgynghori.
- Byddwn yn parhau i weithio ar Raglen Lles Gogledd Powys (gan gynnwys yr hyb lles integredig a'r dull tîm amlddisgyblaethol) a'r model Gofal Sylfaenol (gan gynnwys Datblygu Cydweithredol Clwstwr)
- Bydd gwelliannau mewn Gofal Sylfaenol yn cynnwys Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, darpariaeth y Tu Allan i Oriau, Optometreg, Deintyddol, Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol a Rheoli Meddyginiaethau a Fferyllfa

**Gofal wedi'i Gynllunio a Diagnosteg**

- Bydd canlyniadau Asesiad Strategol Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf  o Ofal wedi'i Gynllunio yn cael eu gweithredu a bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio i archwilio opsiynau yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau Sonograffeg ac Eco-cardioleg An-obstetrig yng Nghanolbarth a De Powys.
- Bydd gwella gwasanaethau a llwybrau yn cynnwys Offthalmoleg, Cleifion Allanol, Orthopedig / Cyhyrysgerbydol, gwasanaeth Aros yn Iach, Theatrau, Endosgopi
- Bydd adolygiadau o ddarpariaeth Gwasanaeth Awdioleg a gwasanaethau darpariaeth cwsg  pwysedd positif parhaus ar y llwybr anadlu (CPAP) yn digwydd

**Gofal Iechyd Cymhleth a Pharhaus**

- Bydd y cynllun trawsnewid ar gyfer y tîm Gofal Cymhleth (mewn ymateb i adolygiad Grant Thornton) yn cael ei weithredu a bydd ymgysylltu'n digwydd â darparwyr i ddatblygu darpariaeth amgen sy'n cynnig yr opsiwn lleiaf cyfyngol a diogel ar gyfer anghenion gofal cymhleth.
- Bydd cynllun adolygu a gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol Anableddau Dysgu, gan fonitro effaith ar ofal acíwt a gofal wedi'i gomisiynu.

# Mynd i'r Afael â'r Pedwar Mawr



## Diabetes

- Byddwn yn parhau i adolygu Llwybr Gwerth Uchel Effaith Uchel Diabetes gan gynnwys atal a monitro a gwelliant wedi'i dargedu o 8 proses gofal NICE mewn Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol.

## Canser

- Byddwn yn gweithredu Gwella Taith Canser ar ôl Cyfnod 2, yn datblygu Tîm Canser Powys (datblygu achos busnes) ac yn adolygu, gwerthuso a datblygu model ar gyfer adferiad a threfniadaeth canser.

## Anadlol

- Bydd llwybrau diffyg anadl yn cael eu gwella gyda grwpiau/clinigau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gweithredu Rhaglen Brechu Anadlol a threial Profi Protein C-Adweithiol (CRP) ar gyfer heintiau anadlol acíwt mewn gofal sylfaenol.

## Cardiaidd

- Bydd prosiectau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol/Gwella Ansawdd (GA) Gofal Sylfaenol yn cael eu cymryd, bydd Cynllun Atal Clefydau Cardiofasgwlaidd cenedlaethol Cymru a Llwybr Methiant y Galon Uwch yn cael eu gweithredu yn unol â chanllawiau NICE.
- Bydd diagnosteg cardiaidd drwy ddull siop un stop/Tîm Amlddisgyblaethol ledled Powys a byddwn yn cofnodi Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion a Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion ar gyfer Methiant y Galon ac yn gweithredu Gwasanaeth Atodol Arrythmia.

## Strôc

- Bydd ymgysylltiad wedi'i dargedu mewn rhaglenni strôc cenedlaethol / rhanbarthol yn parhau ledled Cymru a Lloegr

# Iechyd Meddwl



- Byddwn yn gwella mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth, cefnogaeth ac yn meithrin gwydnwch trwy gefnogaeth therapiwtig ar-lein gan gynnwys Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (CBT)
- Byddwn yn gwella mynediad at asesiad a thriniaeth drwy hunangyfeirio ac atgyfeiriadau uniongyrchol o 111 (pwyso2)
- Bydd darpariaeth leol yn erbyn y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed, gweithredu'r Addewid Celf mewn Iechyd a gwelliant mewn gwasanaethau anhwylderau bwyta/cleifion mewnol gan gynnwys gwaith rhanbarthol a chenedlaethol.
- Bydd y Rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd yn dylunio a gweithredu'r Model Cymunedol i Oedolion Hŷn, yn cwblhau asesiad strategol ar gyfer timau cymunedol amlddisgyblaethol (i lywio Achos Busnes Rhaglen Lles Gogledd Powys) ac yn gweithredu cam nesaf Un Pwynt Mynediad ac 111 Pwyso 2.
- Bydd y Model Cymunedol i Oedolion yn cael ei gynllunio yn unol â chynlluniau peilot 'Ardal Arddangos' ar gyfer Mynediad Agored, Gofal Cam wrth Gam ac Un ar y Tro a bydd yn cynnwys dewis arall yn lle derbyniad i Noddfa.
- Bydd gofal cleifion mewnol yn cael ei gynllunio a'i weithredu yn unol â'r Rhaglen Diogelwch Cleifion Mewnol genedlaethol a Wardiau Diogel
- Bydd y Gwasanaeth Gofal Cymhleth yn cyflawni camau gweithredu (mewn ymateb i adolygiad Grant Thorton)

# Gofal Cydgysylltiedig




**Gwydnwch System**

- Byddwn yn cynyddu ac yn cefnogi cyflwyno llwybrau ymateb i Gwympiadau ymhellach gyda gweithgaredd atal ehangach ac yn sefydlu Fforwm Cwympiadau mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys.
- Bydd gwerthusiad o ddarpariaeth hyfforddiant Cwympiadau Cartrefi Gofal a chynllun busnes yn cael ei ddatblygu ar gyfer cynnig cynaliadwy ar gyfer Cwympiadau.
- Bydd y model Un Pwynt Mynediad yn cael ei wreiddio a'i gryfhau gyda chwmpasu ar gyfer mynediad i awdurdodau lleol a'r trydydd sector a llwybrau ychwanegol.
- Bydd gwerthusiad a pheilota o ailgyfeirio Adrannau Brys
- Er mwyn atal dadgyflyru, bydd cynllun peilot ar lefel ward yn cael ei brofi a'i werthuso i ddatblygu dull o adnabod a rheoli risg yn gynnar.
- Bydd y Fframwaith Llif Ysbyty Gorau posibl yn cynnwys penodi rolau pwrpasol a rhyddhau cryfach, meithrin parodrwydd sefydliadol trwy ymgysylltu â wardiau a sefydlu a gwerthuso dull diwygiedig a chynaliadwy.
- Bydd gwasanaeth yr Uned Mân Anafiadau yn datblygu Rhwydwaith Cyngor Clinigol gyda chyfranogiad Meddygon Teulu ac yn cefnogi Ap Adran Achosion Brys Gofal Iechyd Digidol Cymru

**Comisiynu am Werth**

- Bydd y Fframwaith Comisiynu Strategol (a'r ymateb i'r adolygiad allanol a gynhaliwyd gan Grant Thornton) yn cael ei weithredu
- Byddwn yn comisiynu amseroedd aros GIG Cymru ar gyfer holl boblogaeth Powys er mwyn sicrhau tegwch a chefnogi gostyngiad mewn twf mewn gwariant comisiynu.
- Bydd cyd-gomisiynu yn symud ymlaen â blaenoriaethau Cyd-bwyllgor GIG Cymru (JCC) drwy drefniadau rheoli cydweithredol a bydd comisiynu cydweithredol yn cael ei archwilio drwy Fwrdd Gofal Integredig GIG Lloegr (ICB)
- Byddwn yn gweithredu canlyniadau adolygiad y Trydydd Sector (i'w gwblhau rhwng 2027 a 2028)

# Dyfodol y Gweithlu



**Trawsnewid y Gweithlu a Chynaliadwyedd**

- Bydd cryfhau'r broses o Reoli Swyddi Gwag a Rheoli Sefydliadau gan gynnwys cynllun mabwysiadu lleol ar gyfer y broses adolygu Swydd Ddisgrifiadau genedlaethol
- Byddwn yn cynllunio ar gyfer carfan 2026 o Ddarpar Nyrsys a Seicolegwyr Clinigol, menter Tyfu Staff ein Hunain ac yn lleihau'r defnydd o asiantaethau, yn optimeiddio'r defnydd o fanciau ac yn cryfhau denu a recriwtio staff parhaol.

**Lle Gwych i Weithio**

- Bydd ymyriadau wedi'u targedu yn mynd i'r afael â meysydd problemus/blaenoriaeth o'r arolwg staff, yn adolygu cadw'r gweithlu a chyflwyno'r Rhaglen Trochi Arweinyddiaeth Glinigol ac yn datblygu ymhellach hyfforddiant craidd a statudol, gofynion proffesiynol a rôl.

**Iechyd a Lles Gweithwyr**

- Bydd y gwaith yn cynnwys nodi risgiau, dadansoddi a chefnogi mannau problemus, rhaglen o Sioeau Teithiol Lles staff a lansio pecyn cymorth mewnol ar gyfer profedigaeth.
- Bydd sicrwydd a rheoli perfformiad gwasanaethau iechyd a lles galwedigaethol yn cael eu cryfhau yn erbyn safonau a phrotocolau Cymru Gyfan a weithredir sy'n cefnogi rheoli llwyth gwaith sy'n cyd-fynd â pholisi gweithio ystwyth, gan wella lles a chynhyrchiant.

**Cydraddoldeb a'r Gymraeg**

- Byddwn yn parhau i adolygu cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a Chyd, adolygiad Colled Synhwyraidd, (gan gynnwys gwybodaeth hygyrch e.e. Hawdd ei Darllen, print bras, Iaith Arwyddion Prydain, hygyrchedd digidol)
- Byddwn yn gweithredu Polisi Gwrth-Aflonyddu Rhywiol GIG Cymru ac yn parhau i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth gyda staff Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) i archwilio profiadau bywyd, rhwystrau, a galluogwyr i gynnydd.

# Digidol yn Gyntaf



- Bydd Gofal a Chymorth sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd yn cael eu gwella drwy weithredu'r System Gymunedol a Iechyd Meddwl Sengl (Amnewid System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)) a gweithredu Mamolaeth Ddigidol Cymru o fewn y cwmpas yn llwyr.
- Byddwn hefyd yn cwblhau cyflwyno system Gofal Llygaid OpenEyes ac yn gweithredu Set Data Gofal Brys Cymru (WECDS)
- Er mwyn galluogi effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, bydd gweithredu EPMA (Rhagnodi Electronig a Gweinyddu Meddyginiaethau) yn cael ei gwblhau a bydd achos busnes yn cael ei ddatblygu ar gyfer platfform cyfathrebu digidol (testun, post hybrid, porth cleifion)
- Bydd rheoli stoc clinigol Scan4Safety yn cael ei gwblhau ochr yn ochr ag addysg ddigidol a chynhwysiant trwy Wybodeg Glinigol a gweithredu meddalwedd Gofal Iechyd Parhaus
- Darperir Cymorth Data Mawr a Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer Gwasanaethau Comisiynu ar gyfer awtomeiddio data a gweinyddol gwell.
- Bydd seilwaith a diogelwch yn cael eu gwella a'u monitro trwy gydymffurfiaeth â seiberddiogelwch a'r Fframwaith Asesu Seiber gan gynnwys rheolaethau seiberddiogelwch a monitro ac ymateb i fygythiadau
- Bydd arweinyddiaeth, partneriaeth a chynghreiriau yn cynnwys cefnogi gofynion strategaeth genedlaethol Gofal Iechyd Digidol Cymru a Llywodraeth Cymru, a chamau gweithredu o archwiliadau'r GIG.
- Bydd cefnogaeth hefyd yn cael ei darparu i Raglenni Gwella Gyda'n Gilydd a Lles Gogledd Powys, y Fframwaith Comisiynu Strategol gan gynnwys Optimeiddio Atgyfeiriadau a llwyfan PROMS Digidol (Mesurau Canlyniadau a Adroddir Gan Gleifion).

# Amgylcheddau Arloesol




## Trawsnewid, Cyfalaf Strategol ac Ystadau

- Mae'r gwaith yn cynnwys y rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd a datblygu ystadau, Rhaglen Lles Gogledd Powys, model Powys gyfan ar gyfer Hybiau Integredig a dull sy'n seiliedig ar le.
- Bydd datblygu safleoedd yn cynnwys Canolfan Ranbarthol Wledig Llandrindod (Achos Busnes Cam 2), cwblhau Hyb Iechyd, Gofal a Lles Teuluol Integredig yn Heol Sba a Hyb Cymunedol Practis Meddygol Llanfair Caereinion.
- Bydd cyflawni'r Rhaglen Gyfalaf ddewisol yn cynnwys Cyllid Ystadau Targedig
- Bydd effeithlonrwydd a chynhyrchiant yr ystâd yn cael eu gwella gan gynnwys datblygu synergeddau rhwng ffrydiau gwaith Ystadau a Chyfleusterau a rhesymoli strategol yr ystâd yn unol â'r Rhaglen Gwella Gyda'n Gilydd a thrawsnewid ystwyth.

## Ymateb Hinsawdd

- Lliniaru Hinsawdd megis Camau Gweithredu yn y Cynllun Cyflawni Strategol ar gyfer Datgarboneiddio, gostyngiadau mesuradwy yn y defnydd o ynni, integreiddio technolegau carbon isel, ymgorffori egwyddorion dylunio cynaliadwy ac amgylcheddau glanach.
- Cyhoeddi Cynllun Addasu i'r Hinsawdd BIAP yw ymateb y sefydliad i nodi a lliniaru risgiau o effeithiau presennol a rhai'r dyfodol ac arwain addysg ac asesiad o risg.
- Mae ymgysylltu cymunedol ac Iechyd Gwyrdd yn cynnwys rheoli mannau gwyrdd - amgylcheddau therapiwtig sy'n cefnogi rhagnodi cymdeithasol ac ymyriadau iechyd y boblogaeth a natur ar gyfer lles meddyliol a chorfforol.
- Mae'r System Rheoli Amgylcheddol yn gwella'n barhaus, cynnal achrediad ISO14001 ac yn datblygu amddiffyniad a gwelliant amrywiaeth

# Trawsnewid mewn Partneriaeth



**Cyllid**

- Byddwn yn gweithredu llywodraethu adferiad ariannol gan ganolbwyntio ar gamau adfer ac yn ymestyn monitro a rheolaeth ar draws swyddogaethau Comisiynu a Gofal Iechyd Cymhleth a Pharhaus (GIP). Byddwn yn sefydlu tîm effeithlonrwydd a chyflawni ariannol i nodi a chyflawni cyfleoedd i arbed.
- Byddwn yn defnyddio dadansoddiad a gyrwyr diffyg i ganolbwyntio trawsnewid drwy Gwella gyda'n Gilydd a bydd rheolaeth ariannol yn cynnwys gafael a rheolaeth wrth gomisiynu contractau, integreiddio strategaeth gyllidebol mewn contractau a Gofal Iechyd Parhaus ac ymgysylltu clinigwyr mewn gwneud penderfyniadau ariannol.

**Ansawdd**

- Bydd un System Rheoli Ansawdd gydlynol, sy'n gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol Gwrando ar Bobl, gan anelu at 40% o gwynion trwy ddatrysiad cynnar a gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol Profiad Pobl yn gwella ansawdd ar draws y sefydliad.
- Bydd Datblygu Partneriaethau yn cynnwys gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) i flaenoriaethu'r heriau system mwyaf gan gynnwys oedi llwybrau gofal ac atal derbyniadau amhriodol i'r ysbyty.

**Ymgysylltu a Chyfathrebu**

- Bydd ein rhaglen flynyddol o farchnata a chyfathrebu yn cael ei chyflawni gan ganolbwyntio ar y budd a'r risgiau mwyaf ac ymgysylltu a/neu ymgynghori parhaus / wedi'u targedu a sicrhau systemau a phrosesau materion corfforaethol effeithiol, gan gynnwys mapio rhanddeiliaid.
- Byddwn yn datblygu a chyflawni strategaeth Elusen Iechyd Powys 2026 – 2029 ac yn parhau i gydymffurfio'n gadarn â'r sefydliad gan gynnwys yr Adroddiad Blynyddol, y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, rheoli polisïau, archwilio, safonau ymddygiad, Cylchlythyrau Iechyd Cymru a chyfarwyddiadau gweinidogol a chyflawni rhaglenni archwilio mewnol ac allanol.

**Llywodraethu**

- Byddwn yn gweithredu'r Cynllun Datblygu Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Cofnodion ac yn ymgorffori ymchwil ac arloesedd fel galluogwr allweddol ar gyfer newid, gan gefnogi gwobrau ymchwil a chynyddu ymchwil ym Mhowys.



Os hoffech unrhyw wybodaeth ychwanegol ar y cynllun hwn, yna e-bostiwch Powys.Planning@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Powys Teaching Health Board